Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol – Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2596A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y sefydliadau hynny wrth iddynt ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ill dau â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Cwmpas Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21 6

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 8

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 8

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam un o Asesiad Strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau cynllunio gweithredol yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd y cynlluniau hyn ar gyfer y cyfnod 2020-2023, i'w cymeradwyo. Fodd bynnag, ataliodd Llywodraeth Cymru y broses o gymeradwyo'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig er mwyn caniatáu i gyrff iechyd ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19.

3 Nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer cyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Mae'r canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd lunio cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarter tri a phedwar 2020-21 yn cwmpasu'r trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i lywio eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio'r UE. Hefyd, mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21.

5 Yn ein hadroddiad Asesiad Strwythuredig 2020, gwnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n sail i ddatblygu'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio gweithredol cryf, sy'n parhau i wella. Mae trefniadau cynllunio o ran blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth wedi gwella integreiddio ac mae'r dangosfwrdd perfformiad a sicrwydd yn arf defnyddiol ar gyfer rheoli a chraffu ar y Bwrdd.**

7 Mae cynlluniau gweithredol yr Ymddiriedolaeth wedi'u seilio ar fodelu ariannol a'r gweithlu, ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid a chyfraniadau gan ei Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi addasu ei chynlluniau ar sail adborth Llywodraeth Cymru a'i hadolygiadau ei hun o gynnydd yn ystod y flwyddyn. Addasodd ei Gynllun Gweithredol 2020-22 i adlewyrchu ei ymateb uniongyrchol a thymor canolig i COVID-19 ac yn yr un modd mae'n bwriadu adolygu ei strategaeth hirdymor. Mae strwythurau a phrosesau cynllunio yn darparu dull integredig o gynllunio gweithredol. Mae gwybodaeth o ansawdd da a dulliau adrodd tryloyw clir yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei adrodd yn effeithiol. Yn benodol, mae'r dangosfwrdd perfformiad a sicrwydd yn galluogi'r Bwrdd a rheolwyr i graffu. Mae swyddogion yn parhau i roi cyflwyniadau clir yn esbonio cyd-destun gwybodaeth am berfformiad ac mae aelodau'r Bwrdd yn cynnig her adeiladol gref.

# Adroddiad manwl

## Cwmpas ac ymdriniaeth Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21

8 Ystyriodd ein gwaith gwmpas ac ymdriniaeth Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21 yr Ymddiriedolaeth (Cynllun Chwarteri 3-4) yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

9 Gwelsom **fod gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Chwarteri 3-4 clir, sy'n cydbwyso ei hymateb i COVID ag adferiad sefydliadol ac ailgychwyn gwasanaethau. Mae cynllunio gweithredol wedi'i seilio ar fodelu'r gweithlu ac ariannol i nodi bylchau a dibyniaethau rhwng meysydd gwaith.**

10 Diwygiodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Gweithredol ar gyfer 2020-22 fel amrywiad yn ystod y flwyddyn i'w Chynllun Tymor Canolig Integredig 2019-22. Mae'r Cynllun newydd yn adlewyrchu'r cyd-destun gweithredu sy'n wahanol iawn oherwydd y pandemig ac yn nodi chwe maes blaenoriaeth ar gyfer cyflawni:

- cyflawni'r ymateb diogelu iechyd i COVID-19 mewn modd effeithiol a chynaliadwy;
- effeithiau ehangach ar iechyd y boblogaeth;
- ailgychwyn gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus wedi'u blaenoriaethu mewn modd effeithiol;
- dysgu sefydliadol, gwybodaeth a naratif COVID-19;
- adferiad sefydliadol a datblygu 'normal newydd'; a
- galluogi cyflawni a chefnogi trawsnewid corfforaethol.

Ymgysylltodd yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol â'i Bwrdd i adolygu'r Cynllun Gweithredol. Trafododd yr Aelodau flaenoriaethau cyflawni sy'n dod i'r amlwg yn sesiwn ddatblygu y Bwrdd ar 2 Hydref 2020. Yna rhannodd swyddogion gynllun drafft â'r Bwrdd i gael sylwadau arno. Cafodd y Bwrdd drafodaeth drylwyr ar y cynllun drafft cyn ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 29 Hydref. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yr Ymddiriedolaeth yn crynhoi'r Cynllun Gweithredol. Fe'i datblygwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 21 Hydref. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Chwarteri 3-4 i'r Bwrdd ar 26 Tachwedd.

11 Mae'r cynlluniau Gweithredol a Chwarteri 3-4 yn adeiladu ar gynlluniau chwarteri un a dau yr Ymddiriedolaeth, gan gydbwyso ei hymateb parhaus i COVID ag ailgychwyn gwasanaethau ac adferiad sefydliadol ehangach. Mae'r ddau gynllun yn cydnabod pwysigrwydd hyblygrwydd i ymateb i'r pandemig sy'n esblygu, ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn dangos

bod mynd i'r afael â'r 'pedwar niwed'[1] a nodir yn Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru yn rhan annatod o flaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth a'r ffordd y mae'n cefnogi ei gweithlu ei hun.

12 Mae'r cynlluniau Gweithredol a Chwarteri 3-4 wedi'u seilio ar fodelu'r gweithlu ac ariannol, a nodir y manylion hyn mewn dogfennau ategol[2]. Amlygodd y Cynlluniau fylchau sylweddol mewn adnoddau y bydd Achos Busnes Diogelu Iechyd y Cyhoedd yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â nhw i Lywodraeth Cymru. Mae'r Achos Busnes yn nodi cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i gynyddu capasiti diogelu iechyd y cyhoedd a chreu gwasanaeth cadarn, hirdymor. Mae'r Cynllun Gweithredol yn disgrifio trefniadau dros dro i reoli'r galw am wasanaethau diogelu iechyd cyn cymeradwyo'r Achos Busnes. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr Achos Busnes ym mis Chwefror 2021. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mapio dibyniaethau rhwng gwaith i gyflawni pob un o'i chwe blaenoriaeth strategol a'i swyddogaethau galluogi megis pobl a chyllid. Nodir gwybodaeth am ddibyniaethau mewn dogfennau ategol[3] ac fe'i trafodir mewn cyfarfodydd 'fforwm arweiniol cynllunio' rheolaidd (gweler adran 1.2).

13 Ym mis Hydref 2020,cytunodd y Tîm Busnes Gweithredol yn ffurfiol ar linell sylfaen sefydlog ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredol. Mae llinellau sylfaen wedi'u seilio ar sefyllfa bresennol yr Ymddiriedolaeth a'r targedau ar gyfer cyflawni. Edrychodd y Tîm ar gerrig milltir ar gyfer pob blaenoriaeth strategol ochr yn ochr ag adnoddau ariannol a dynol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn asesu ei llinell sylfaen os bydd newid mewnol neu allanol sylweddol. Mae hefyd yn cynllunio gwiriadau cyfnodol ar bob blaenoriaeth megis asesiadau canol blwyddyn, a gallai hyn arwain at yr angen i ddiwygio llinellau sylfaen. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi cerrig milltir ar gyfer cyflawni pob blaenoriaeth. Mae'n mesur cynnydd yn erbyn pob carreg filltir mewn dangosfwrdd perfformiad a sicrwydd rhyngweithiol ac yn cefnogi adroddiad perfformiad integredig (gweler adran 1.3). Mae'r dangosfwrdd hefyd yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion gwasanaeth allweddol gan gynnwys gwasanaethau sgrinio unigol.

[1] Niwed o COVID-19; niwed o system GIG a gofal cymdeithasol sydd wedi'i gorlethu; niwed o leihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID; niwed o gamau / cyfyngiadau cymdeithasol ehangach.

[2] Gan gynnwys ymarfer mapio'r gweithlu, adnoddau a chynlluniau recriwtio, ac adolygiad o gynllun gweithlu sefydliadol yr Ymddiriedolaeth.

[3] Gan gynnwys templedi cynllunio ar gyfer pob maes blaenoriaeth.

# Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

14 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i gefnogi ei hymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol ac ailgychwyn gwasanaethau mwy arferol.

15 Gwelsom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio gweithredol effeithiol wedi'u seilio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae wedi mireinio ei dull er mwyn integreiddio swyddogaethau galluogi a chyflawni yn well a sicrhau bod newidiadau i'r ddarpariaeth yn cael eu rheoli'n dda ac yn dryloyw.**

16 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn cynnwys dysgu o adolygiad Llywodraeth Cymru o gynlluniau chwarteri un a dau ac adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i gynllun cam un[4] a dau i gyflwyno'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu. Wrth ddatblygu'r cynlluniau Gweithredol a Chwarteri 3-4, defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth werthusiadau o ffrydiau gwaith penodol hefyd, megis olrhain cysylltiadau, samplu, a'i waith lleoliadau amgaeedig. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi bwriad yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu dull mwy systematig o gasglu a rhannu gwersi yn y dyfodol agos.

17 Bu'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n systematig â'r holl staff drwy arolygon staff, grwpiau rhanddeiliaid a chyfarfodydd rhithwir i alluogi staff i holi'r timau sy'n datblygu'r cynlluniau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol. Gwnaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i ddatblygu agwedd benodol ar y cynllun ar sail ad hoc. Bu'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd, awdurdodau lleol, ffora cadernid lleol, a Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull Cymru gyfan o ymdrin â'r pandemig. Yn fwy cyffredinol, gweithiodd yr Ymddiriedolaeth gyda sefydliadau'r DU a sefydliadau rhyngwladol i rannu gwersi a ddysgwyd ynglŷn ag agweddau ar y pandemig, sydd wedi llywio ei chynlluniau gweithredol.

18 Yn ystod 2020-21, daeth dull cynllunio'r Ymddiriedolaeth yn fwy penodol ac wedi'i integreiddio'n well. Mae ganddi chwe thîm amlddisgyblaethol i gynllunio a goruchwylio'r gwaith o gyflawni ei chwe blaenoriaeth strategol. Mae gan bob blaenoriaeth Uwch Swyddog Cyfrifol penodol, arweinydd cynllunio, a 'sgwad cynllunio' ategol, gan gynnwys staff o swyddogaethau galluogi megis pobl a datblygiad sefydliadol. Mae pob tîm blaenoriaeth yn cydweithio i lenwi templed cynllunio â gwybodaeth allweddol am yr adnoddau, y risgiau a'r dibyniaethau sy'n gysylltiedig â chyflawni. Mae arweinwyr cynllunio yn cyfarfod yn rheolaidd drwy'r fforwm arweinwyr cynllunio i drafod cynnydd, darparu her adeiladol, a rhannu gwybodaeth am faterion sy'n codi. Mae'r dull yn gwella integreiddio ar draws y sefydliad ac â chynlluniau gweithredol a strategol ehangach yr Ymddiriedolaeth.

[4] Cynhaliwyd Cam Un o fis Mawrth tan ddechrau mis Mehefin. Cynhaliwyd cam dau o fis Mehefin tan ddiwedd mis Medi. Roedd y cynlluniau'n sail i chwarteri un a dau.

19 Adnewyddodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Gweithredol ym mis Mawrth 2021. Yn fwy cyffredinol, bydd yn adolygu ei strategaeth hirdymor yn 2021 i ystyried a yw'r blaenoriaethau a'r dulliau cyflawni yn dal i fod yn berthnasol.

20 Mae'r Cynlluniau Gweithredol a Chwarteri 3-4 yn nodi'r angen i ymateb yn hyblyg i amgylchiadau sy'n newid – yn y tymor byr ac o fewn y cyfnod a gwmpesir gan y Cynllun Gweithredol. Er enghraifft, mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu rhoi hyblygrwydd i gapasiti’r gweithlu i ymateb i newidiadau yn y galw yn ei chanolfan gyswllt, ond mae hefyd wedi cydnabod y gallai fod angen iddi ymateb yn y tymor canolig i adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol ar draws system Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau rheoli newid effeithiol i gofnodi newidiadau i'r ddarpariaeth arfaethedig, y rheswm dros bob newid, a threfniadau cyflawni diwygiedig.

# Trefniadau ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol

21 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni ei Chynllun Chwarteri 3-4.

22 Gwelsom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cryf ar gyfer goruchwylio'r gwaith o gyflawni ei chynlluniau gweithredol a gefnogir gan ddangosfwrdd perfformiad a sicrwydd rhyngweithiol a gwaith craffu da gan y Bwrdd.**

23 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer goruchwylio'r gwaith o gyflawni ei chynlluniau gweithredol yn parhau i fod yn gryf. Ers ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2020, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei ddangosfwrdd perfformiad a sicrwydd. Mae'r dangosfwrdd yn cyfuno gwybodaeth allweddol am ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19, cyllid, gweithlu, ansawdd a chyflawni ei chynllun gweithredol. Cyflwynir y dangosfwrdd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd ac mae ar gael i aelodau rhwng cyfarfodydd i graffu'n fanwl arno. Mae swyddogion yn rhoi cyflwyniadau llafar clir ar yr wybodaeth yn y dangosfwrdd sy'n esbonio materion allweddol sy'n effeithio ar berfformiad ac unrhyw gamau sydd eu hangen i wella perfformiad. Mae'r Tîm Busnes Gweithredol yn adolygu'r dangosfwrdd yn fisol. Yn ystod cyfnodau critigol o'r pandemig, monitrodd Grŵp Aur yr Ymddiriedolaeth agweddau allweddol ar ei hymateb i COVID yn fwy rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ysgrifennu adroddiad perfformiad integredig sy'n disgrifio perfformiad a'r cyd-destun o'i amgylch. Cefnogir yr adroddiad gan ddogfen PDF gyda delweddau o'r dangosfwrdd i ddarparu gwybodaeth glir am berfformiad i'r cyhoedd.[5]

24 Mae'r dangosfwrdd hefyd yn rhoi sicrwydd ar ansawdd data perfformiad. Mae tîm dadansoddeg corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn asesu ac yn dyfarnu gradd efydd, arian neu aur i bob ffynhonnell ddata yn seiliedig ar safonau ansawdd

[5] Ni all y cyhoedd gael mynediad i'r dangosfwrdd perfformiad a sicrwydd ei hun.

cydnabyddedig. Nid yw data nad ydynt yn bodloni'r safonau wedi'u cynnwys nes y gall yr Ymddiriedolaeth eu gwella. Nodir ffynhonnell ac ansawdd y data yn y dangosfwrdd fel y gall y Bwrdd asesu'n glir gryfder y sicrwydd a roddir. Rhoddodd Adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Mawrth 2021 sicrwydd sylweddol ynglŷn â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli ansawdd y data a ddefnyddir yn y dangosfwrdd.

25 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio'r Asesiadau Hyder Cyflawni sy'n nodi'r ffordd debygol o gyflawni ei hymateb i COVID yn llwyddiannus yn seiliedig ar gynnydd, rheoli risg, gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am y gweithlu.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.